# Cerdyn Gofalwr Ifanc RhCT
# Canllawiau a Chwestiynau Cyffredin ar gyfer Cyfeirwyr dibynadwy

## TROSOLWG

Mae'r cynllun cerdyn gofalwr ifanc cenedlaethol, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn bartneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a holl Awdurdodau Lleol Cymru. Ei nod yw profi a datblygu dull o wella'r profiadau y mae Cynhalwyr (Gofalwyr) Ifainc ledled y wlad yn eu cael mewn lleoliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

Bydd y cerdyn gofalwr ifanc neu gerdyn GI yn darparu llun adnabod i bob cynhaliwr ifanc sy'n 18 oed neu'n iau sy'n dymuno ei gael. Dyma ffordd hawdd i gynhalwyr ifainc ddangos gweithwyr proffesiynol pwy ydyn nhw heb orfod rhannu manylion personol am eu rôl ofalu. Y gobaith yw y bydd y cerdyn yn rhoi hyder i gynhalwyr ifainc ofyn am gymorth neu ddealltwriaeth gan weithwyr proffesiynol fel athrawon, meddygon a fferyllwyr heb deimlo eu bod nhw'n tynnu sylw atyn nhw eu hunain neu'u sefyllfa.

Wrth i ni ddatblygu’r cynllun yn Rhondda Cynon Taf, dyma obeithio y bydd modd defnyddio'r cerdyn GI i fanteisio ar ostyngiadau a buddion lleol hefyd, i gydnabod cyfraniadau sylweddol ein cynhalwyr ifainc lleol.

Cofiwch fod gan gynhalwyr ifainc hawl i'r gefnogaeth y maen nhw'n ei haeddu. Does dim rhaid bod ganddyn nhw Gerdyn GI i gael y gefnogaeth yma.

## CYFLWYNO CAIS

Os ydych chi'n berson sy'n rhoi cymorth neu yn gweithio gyda Chynhaliwr Ifanc, fe gewch chi eich ystyried yn 'ganolwr dibynadwy', felly mae modd i chi wneud cais am Gerdyn Gofalwr Ifanc ar ran cynhaliwr ifanc trwy gwblhau'r:

**Ffurflen gais am Gerdyn Gofalwr Ifanc**

***I'w gwblhau gan Atgyfeiriwr Dibynadwy***

Mae atgyfeirwyr dibynadwy fel arfer yn weithwyr proffesiynol sy'n adnabod y Cynhaliwr Ifanc ac sy'n gallu gwirio ei fod yn gymwys i wneud cais am Gerdyn GI. Mae modd i atgyfeirwyr dibynadwy weithio i ystod o asiantaethau gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, gwaith ieuenctid ac iechyd.

Bydd angen i chi ofyn i'r cynhaliwr ifanc gael caniatâd ar gyfer y cerdyn GI gan ei riant neu warcheidwad.

Mae modd llenwi'r ffurflen gais ar y cyd gyda'r cynhaliwr ifanc ac yna ei dychwelyd gyda llun ohono/ohoni.

## Adnoddau Ategol

### Os ydych chi'n athro neu'n weithiwr addysg proffesiynol

Gall llawer o gynhalwyr ifainc ei chael hi'n anodd cadw i fyny â rhai agweddau ar eu haddysg, gan gynnwys:

- Bod ar amser i'r ysgol os oes dyletswyddau gofalu ganddyn nhw cyn oriau ysgol.
- Colli gwersi i edrych ar ôl y person maen nhw'n gofalu amdano neu i fynd i apwyntiadau iechyd.
- Dydyn nhw ddim yn cwblhau gwaith cartref gan eu bod nhw'n brysur gyda'u cyfrifoldebau gofalu gartref.

Byddwn ni'n gweithio gyda hyrwyddwyr cynhalwyr mewn ysgolion a cholegau i ddatblygu ffyrdd o ddefnyddio'r cerdyn GI mewn sefydliadau addysgol.

I gael rhagor o wybodaeth am y cerdyn GI a'i fuddion mewn amgylcheddau ysgol a sut y mae modd i chi helpu i gefnogi cynhalwyr ifainc yn yr ysgol neu'r coleg, defnyddiwch y dolenni canlynol sydd wedi'u datblygu gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr:

**https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/young-carers-id-card-welsh**

**https://carers.org/resources/all-resources/115-adnoddau-ar-gyfer-gweithwyr-addysg-proffesiynol-i-gefnogi-gofalwyr-ifanc-mewn-ysgolion-a-cholegau**

Mae adnoddau pellach hefyd wedi'u cynnwys gyda'r pecyn yma.

### Os ydych chi'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol

Mae'r cerdyn GI yno i'ch helpu chi i wybod pwy allai fod yn gynhaliwr ifanc, a bydd yr adnoddau'n eich helpu i ddeall eu cyfrifoldebau ychwanegol posibl. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn caniatáu i chi deilwra'r gofal rydych chi'n ei ddarparu iddyn nhw yn effeithiol.

Mae modd i chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y cerdyn GI a'i fuddion i'ch proffesiwn trwy ddilyn dolen yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yma:

**https://carers.org/around-the-uk-our-work-in-wales/young-carers-id-card-welsh**

## Cwestiynau Cyffredin

### Beth yw'r Cerdyn Gofalwr Ifanc?

Cerdyn â llun arno yw'r Cerdyn Gofalwr Ifanc sy'n cael ei roi gan Gyngor Rhondda Cynon Taf i Gynhalwyr Ifainc dan 18 oed sydd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Gynhalwyr Ifainc ac wedi gofyn am gerdyn.
Mae'r Cerdyn Gofalwr Ifanc yn profi bod y person sydd yn y llun yn Gynhaliwr Ifanc a bod ganddo/ganddi gyfrifoldebau gofalu.
Mae'r Cerdyn Gofalwr Ifanc yn rhad ac am ddim ac mae'n para am 2 flynedd, neu nes bod y Cynhaliwr Ifanc yn troi'n 18, pa un bynnag sydd gyntaf.

### Ar gyfer pwy mae'r Cerdyn Gofalwr Ifanc?

Mae'r Cerdyn Gofalwr Ifanc ar gyfer Cynhalwyr Ifainc. Mae Cynhaliwr Ifanc yn rhywun sy'n helpu i ofalu am ffrind neu aelod o'r teulu sydd ddim yn gallu ymdopi ar ei ben ei hun o ganlyniad i anabledd, salwch corfforol neu feddyliol neu fod camddefnyddio sylweddau neu alcohol yn effeithio arno.
Mae modd gwneud cais am Gerdyn Gofalwr Ifanc os ydych chi'n byw yn Rhondda Cynon Taf

### Beth yw diben y Cerdyn Gofalwr Ifanc?

Mae'r Cerdyn Gofalwr Ifanc yn dangos bod deiliad y cerdyn yn Gynhaliwr Ifanc. Mae modd defnyddio'r cerdyn i ddangos eich bod chi'n helpu i ofalu am rywun. Yn y dyfodol rydyn ni'n gobeithio y bydd modd defnyddio'r cerdyn i fanteisio ar ostyngiadau lleol

## Telerau ac Amodau

Cyn gwneud cais am Gerdyn Gofalwr Ifanc, darllenwch yr amodau a'r telerau yma:

• Caiff y Cerdyn Gofalwr Ifanc ei roi i Gynhalwyr di-dâl, dan 18 oed sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf.

• Ar ôl cael cerdyn, fe fydd Cynhalwyr Ifainc yn cael eu cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Gynhalwyr Ifainc.

• Os dydy'r cais am Gerdyn Gofalwr Ifanc ddim wedi'i gyflwyno gan Atgyfeiriwr Dibynadwy, efallai y bydd angen i Gyngor Rhondda Cynon Taf, o bryd i'w gilydd, ofyn i'r Cynhaliwr Ifanc
neu riant / gwarcheidwad i ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth o rôl ofalu y Cynhaliwr Ifanc, megis llythyr gan feddyg, ysgol neu dystiolaeth ategol briodol arall.

• Mae'r Cerdyn Gofalwr Ifanc yn ddilys am 2 flynedd o'r dyddiad caiff ei roi, neu nes bod y Cynhaliwr Ifanc yn 18 oed, pa un bynnag sydd gyntaf, a chaiff ei adolygu bob 2 flynedd.

Os yw rôl ofalu Cynhaliwr Ifanc wedi dod i ben, rhaid i'r rhiant / gwarcheidwad neu'r Cynhaliwr Ifanc roi gwybod i Gyngor Rhondda Cynon Taf am y newid yma. Mae modd i'r Cynhaliwr Ifanc barhau i ddefnyddio'r cerdyn am 3 mis arall, yna rhaid dychwelyd y cerdyn i Gyngor Rhondda Cynon Taf.

• Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cadw'r hawl i newid ymddangosiad ac amodau'r Cerdyn Gofalwr Ifanc, neu dynnu cynllun y Cerdyn Gofalwr Ifanc yn ôl ar unrhyw adeg.

• Os ydych chi wedi colli'ch Cerdyn Gofalwr Ifanc, mae croseo i chi ffonio'r Gwasanaeth i Gynhalwyr ar 01443 281463 i dderbyn cerdyn newydd.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn cadw'r hawl i newid telerau ac amodau'r cytundeb yma ar unrhyw adeg. Os byddwn ni'n gwneud hynny, byddwn ni'n rhoi gwybod ysgrifenedig i chi o leiaf 30 diwrnod cyn gwneud unrhyw newidiadau o'r fath, gan ddarparu manylion am y newidiadau cafodd eu gwneud.

**Sut y dylwn gysylltu os oes gen i rhagor o gwestiynau?**

Drwy'r godi'r ffôn: 01443 281463 neu 07824496485

Drwy e-bost: CarfanCynhalwyrIfainc@rctcbc.gov.uk

**NEU**

Cynllun Cynnal y Cynhalwyr
11–12 Heol Gelliwastad
Pontypridd
CF37 2BW